Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Health and Social Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeiryddion Byrddau Diogelu Rhanbarthol

7fed Ebrill 2017

Annwyl Gadeirydd

Yr wyf yn falch o gyhoeddi bod Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymeradwyo'r dyfarnu cyllid i Fyrddau Diogelu Plant ac Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg i rheoli a noddi datblygiad ac adolygiad o weithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion Cymru gyfan ar ran y Byrddau Diogelu a'u haelodau.

Mae'r prosiect hanfodol hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ddiwygio'r gweithdrefnau gweithredol presennol ac i baratoi canllawiau newydd ar gyfer staff y rheng flaen, rheolwyr llinell a gwneuthurwyr penderfyniadau yn unol â gofynion newydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r dysgu diweddaraf ym maes arfer diogelu.

Cafodd y cyllid ei gymeradwyo ar sail y cynnig amlinellol sydd ynghlwm. Rydym yn croesawu'n arbennig bod y cynnig yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu cydweithredol bydd yn sicrhau bod y gweithdrefnau yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid ac yn cael ei gytuno gan yr holl Fyrddau Diogelu ledled Cymru. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod y gweithdrefnau'n cefnogi y rhai sy'n dibynnu ar gweithdrefnau cadarn o ddydd i ddydd, ac ar gael ar lwyfan digidol ar gyfer y dyfodol.

Mae rhaglen fwy manwl o'r gwaith yn cael ei pharatoi ac rydym yn sicr fydd hwn yn cael ei rhannu gyda Byrddau â rhanddeiliaid yn y dyfodol agos fel blaenoriaeth. Yn ogystal bydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r fforwm polisi diogelu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried y cynnig amlinellol ym mis Ebrill. Gan ystyried goruchafiaeth y Byrddau statudol, bydd arweinwyr diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg yn ysgrifennu at holl Gadeiryddion y Byrddau o fewn yr wythnosau nesaf i ddechrau cysylltiad gyda'r bwriad o ddechrau ymgysylltu uniongyrchol â phob rhanbarth ar gychwyn y prosiect.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at weithdrefnau newydd neu ddiwygiedig yn dod yn weithredol dros y 9-18 mis nesaf.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Tîm diogelu, cwynion ac eiriolaeth • Safeguarding Advocacy and Complaints Team
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 03000 251 638
megan.colley@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

yn gywir

Megan Colley

**Pennaeth Diogelu, eiriolaeth a chwynion**

Copïau at:

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
Prif swyddogion yr heddlu yng Nghymru
Prif weithredwyr byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru
Cyfarwyddwr cwmni adsefydlu cymunedol Cymru
Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru
Alun Thomas, Swyddfa Cyswllt yr heddlu
Cadeirydd grŵp gweithdrefnau amddiffyn plant Cymru gyfan
Cadeirydd grŵp gweithdrefnau amddiffyn oedolion
Cyfarwyddwyr Addysg
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Penaethiaid gwasanaethau oedolion
Penaethiaid gwasanaethau plant
Cyfarwyddwyr Nyrsio
Comisiynwyr Heddlu a throseddu yng Nghymru
Llywydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Plant yng Nghymru (fel corff ymbarél)
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol (fel corff ymbarél) Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru